Syniadau A.G.

Tymor yr Haf 2004 ***Pris £1.00***

Llyfrau Arbennig

Elinor Wyn Nicholson, Ysgol Mynyddygarreg, Sir Gaerfyrddin.

Yn yr uned yma, bwriedir edrych ar y pwysigrwydd, parch a gofal a roir i lyfrau crefyddol, ac ymchwilio i storiau, traddodiadau a digwyddiadau hanesyddol sy'n gysylltiedig ag ysgrifeniadau crefyddol

Amcanion Dysgu

C.A.1 :

- Sylweddoli bod gan draddodiadau crefyddol Lyfrau Arbennig sy'n bwysig iawn iddynt.
- Bod yn gyfarwydd â rhai o'r storiau sy'n gysylltiedig â dau gymeriad crefyddol allweddol.

(Datganiadau Diwedd Cyfnod Allweddol sy'n rhan o Faes Llafur Cytun Sir Gaerfyrddin)

C.A.2 :

- Bod yn gyfarwydd â storiau a digwyddiadau hanesyddol sy'n gysylltiedig â llyfrau sanctaidd a deall pam ei fod yn bwysig i gymunedau crefyddol gael traddodiadau ysgrifenedig.
- Nodi'r ffyrdd y caiff llyfrau sanctaidd eu trafod a'u darllen.
- Rhoi amlinelliad o hanes dau gymeriad crefyddol a disgrifio rôl arweinydd crefyddol modern.

(Datganiadau Diwedd Cyfnod Allweddol sy'n rhan o Faes Llafur Cytun Sir Gaerfyrddin)

Nodiadau Cefndirol

Ffydd	Llyfr Sanctaidd	Iaith
Cristnogaeth	Y Beibl	Lladin,(Groeg-Testament Newydd)
Iddewiaeth	Y Torah	Hebraeg
Islam	Y Qur'an	Arabeg
Hindwaeth	Sruti a Smitri ac eraill	Sanskrit
Sikhaeth	Y Guru Granth Sahib a'r Damsan Granth	Punjabi
Bwdhaeth	Tripitaka	Cambodian

Datblygu'r thema





Syniadau o weithgareddau i'w cyflawni gyda phlant C.A.1

Cyffredinol

- Y plant i ddod â'u hoff lyfrau i'r ysgol.
- Rhannu gyda'r dosbarth yr hyn sy'n gwneud y llyfr mor arbennig iddo/iddi.
- Trafod yr ystod o wahanol lyfrau a gasglwyd a pham maent yn arbennig i'r unigolyn.
- Creu arddangosfa o'r llyfrau.
- Creu llyfr dosbarth yn seiliedig ar syniadau'r plant e.e cofnod o daith ysgol, rheolau, stori bersonol, llun, cerdd, dymuniad ayb.
- Ei addurno a'i rwymo i'w wneud yn arbennig.
- Trafod man cadw, amser arbennig i'w ddarllen, defodau cyn ei gyffwrdd, gofal ayb.

Cristnogaeth

- Gwneud casgliad o wahanol Feiblau e.e. Beibl y Plant, Beibl teuluol mawr, Beibl Cymraeg, Saesneg ayb.
- Gwrando ar storiau o'r Beibl gan ymateb iddynt mewn gwahanol ffyrdd e.e.
  Y Samariad Trugarog(Luc.10) ; Creu poster "Yn Eisiau - am ymosod ar ddyn a'i adael yn hanner marw……." / Chwarae rôl.
  Y Briodas yng Nghana (In. 2)/ Dameg y Mab Colledig (Luc 15) : Ysgrifennu gwahoddiad.
  Tynnu tywysennau ar y Saboth (Luc. 6) ;/ Glanhau'r Deml (In. 2) Llunio rheolau.
  Geni Iesu (Luc.2) ; Creu carden i ddathlu genedigaeth.
  Y Storm ar y Môr (Mth.8)/ Merch Jairus ; Ysgrifennu gweddi.
  Y Ddafad Golledig (Mth.18) ; Llunio hysbyseb.
  Yr Wythnos Olaf (In. 12-20); Ysgrifennu dyddiadur.
  Porthi'r Pum Mil (In.6); Celf a chrefft / Coginio
  Dameg yr Heuwr (Mc.4) ; Creu murlun gan ddefnyddio hadau / Tyfu planhigion.
  Iachau Dyn Dall (Mc.8) ; Chwarae rôl/ Gemau dyfalu.
- Cyflwyno Stori Mari Jones a'i Beibl. Dilyn y daith gan ddefnyddio sgiliau mapio; Chwarae rôl.

Iddewiaeth

- Gwneud sgrôliau unigol trwy ddefnyddio ffyn lolipop a darn hir o bapur / sgrôl Torah llawn maint i'r dosbarth cyfan gan ddefnyddio darnau o bren a phapur siwgr.
- Ysgrifennu rhan o stori Joseff arni.
- Tynnu lluniau o'r stori arni.
- Gwneud casyn o felfed neu ddefnydd tebyg a'i addurno.
- Penderfynu ar leoliad arbennig iddo.
- Copio sgript Hebraeg (gan gofio iddo gael ei ysgrifennu o'r dde i'r chwith) e.e Enwau'r disgyblion yn yr Hebraeg.
- Archwilio yad (y pwyntydd) gan esbonio nad yw'r Iddewon byth yn cyffwrdd â sgroliau'r Torah â'u dwylo wrth eu darllen.
- Y plant yn ymarfer gyda'r yad trwy ddarllen yn gyhoeddus o'u sgroliau.

Islam

- Gwneud darllenfa i'r Qur'an allan o bren, cardfwrdd neu glai.
- Astudio'r sgript Arabeg a'i ddefnyddio i addurno tudalen o farddoniaeth o'r Qur'an.

Hindwaeth

- Gwrando ar stori Rama a Sita ac yna ei hactio.
- Gwneud pypedau o'r cymeriadau yn y stori ac yna creu sioe bypedau.
- Creu murlun o'r stori.

Sikhaeth

- Chwarae "Chinese Whispers" (i ddangos mai traddodiad llafar oedd i'r emynau)
- Chwarae rôl y ddefod sy'n glwm â thriniaeth o'r Guru Granth Sahib.

Bwdhaeth

- Gwneud rhestr o'r pethau dylid eu gwneud/ na ddylid eu gwneud fel bo pob unigolyn yn mwynhau hapusrwydd.

Syniadau o weithgareddau i'w cyflawni gyda phlant C.A.2- Cristnogaeth

- Trafod datblygiad llyfrau o'r amser cynharaf hyd heddiw gan sôn am y dulliau diweddaraf o storio a throsglwyddo gwybodaeth e.e. cyfrifaduron.
- Trafod y gwahanol mathau o lyfrau sydd ar gael - o gylchgronau i fywgraffiadau; ffuglen i lyfrau rysait; gwyddoniaduron i'r Beibl.
- Trafod eu hoff storiau Beiblaidd – o'r Hen Destament a'r Testament Newydd. Creu graff ohonynt.
- Astudio'r modd mae'r Beibl wedi ei rannu – yn ddau lyfr, penodau ac adnodau. Gwneud arddangosfa o'u hoff adnodau.
- Astudio'r math o lenyddiaeth a geir yn y Beibl e.e. Barddoniaeth, Hanes, Llythyron a.y.b. Eu categoreiddio a chreu tabl ohonynt.
- Gwneud casgliad o Feiblau o wahanol ieithoedd, ffurfiau a fersiynau. Cymharu stori neu adnod yn unig o'r gwahanol fersiynau.
- Sesiwn holi ac ateb gan ficer, gweinidog, cynrychiolydd o'r Gideoniaid ayb, am eu gwaith ac o bwysigrwydd y Beibl iddynt. Cofnodi ar ffurf holiadur.
- Hanes William Morgan yn cyfieithu'r Beibl gan bwysleisio'r ymroddiad i'r gwaith o dan amodau anodd.
  Gwneud ymchwil mewn llyfrau neu ar y We.
  Cofnodi'r hanes gan amrywio'r dulliau e.e. dyddiadur William Morgan; adroddiad papur newydd am y cyfieithiad; mynegi barn y werin bobl; poster yn cyhoeddi ymddangosiad y cyfieithiad
  Addurno llythrennau cyntaf penodau'r Beibl.
  Creu'r stori ar ffurf lluniau gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau e.e Lliwio/ peintio/collage ayb.
  Argraffu syml gyda llysiau a stampiau.
  Arbrofi ysgrifennu gyda phlu ac inc. (adnodau neu ran o stori Feiblaidd)





ADNODDAU MAGC *(Mudiad Addysg Gristnogol Cymru)*
Gwybodaeth fanwl a syniadau pellach i'w cael ym Mhecynnau Adnoddau MAGC
GELLIR LLUNGOPIO AR GYFER DEFNYDD EICH YSGOL.
Disgownt ychwanegol ar gael i ysgolion yn yr Awdurdodau sy'n cyfrannu ac i fyfyrwyr.
Catalog Adnoddau a Phecynnau ynghyd â chopiau o 'Syniadau AG' ar gael oddiwrth:
Sali Roberts, MAGC,
Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH, SY20 9EX.
(Tel/Ffacs:01654-761697) © MAGC 2003